

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Ebrill 2021

Aunwyl Mr Ramsay,

Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS 7 RHAGFYR 2020

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020, cytunais ar nifer o bwyntiau gweithredu sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth, fel sy'n cael eu hamlinellu isod:

- 1. Darparu data sy'n dangos dadansoddiad o niferoedd y staff ar draws y sefydliad, yn ôl y gwahanol raddfeydd yn y grwpiau nodweddion gwarchoddedig.**

Caiff yr wybodaeth hon ei darparu ar wahân oherwydd sensitifrwydd y data.

- 2. Darparu rhagor o fanylion am y dull gweithredu a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithio gartref.**

Mae pecyn o sleidiau wedi ei gynnwys yn Atodiad A, sy'n egluro ein dull gweithredu ar gyfer gweithio gartref yn ddiogel.

- 3. Darparu copi o'r hysbysiad swydd diwygiedig ar gyfer penodi gwas sifil newydd i arwain yr Adran Addysg.**

Mae copi o'r hysbysiad swydd wedi ei gynnwys yn atodiad B.



Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

4. Darparu copi o'r Adolygiad Annibynnol o gaffael mewn perthynas â Chynllun Cefnogi Swyddi Cymru, neu ddweud pryd y byddwch mewn sefyllfa i wneud hynny.

Anfonwyd yr adroddiad atoch ar 24 Mawrth ond rydym hefyd wedi'i gynnwys yn yr ohebiaeth hon er hwylustod, ac mae wedi'i atodi fel Atodiad C.

5. Darparu adborth o gyfarfod y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020, o ran y trafodaethau ynglŷn â chyhoeddi papurau Byrddau a Phwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg y cyrff a noddir.

Cafodd argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer cyhoeddi papurau Archwilio a Sicrhau Risg Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ei roi ar agenda cyfarfod y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020.

Cafodd yr argymhelliad, a'r materion a oedd yn gysylltiedig ag ef, eu disgrifio, a gofynnwyd i aelodau'r Fforwm wirfoddoli sefydlu rhith-weithgor gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru, er mwyn ystyried y materion hyn a chynnig opsiynau i'r Fforwm er mwyn iddo allu gwneud penderfyniad ar y ffordd fwyaf priodol i ymateb i'r argymhelliad.

Paratowyd papur gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus i'w ddsbarthu i aelodau'r Fforwm; mae'r papur yn nodi'r materion, ac mae'n cynnwys adran ar y sefyllfa bresennol o ran cyhoeddi'r papurau Archwilio a Sicrhau Risg yn y GIG yng Nghymru. Mae hefyd yn gofyn am wirfoddolwyr i weithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar yr argymhelliad yn fanwl, a chynnig opsiynau i aelodau'r Fforwm o ran y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o ymateb iddo. Bydd y mater yn cael ei roi ar agenda cyfarfod nesaf y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus, a fydd yn debygol o gael ei gynnal ym mis Mawrth 2021.

Byddaf yn rhoi gwybod am ymateb y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus i'r Pwyllgor.

6. Darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut mae cyllid grant Llywodraeth Leol yn gweithio'n ymarferol fel rhan o'r broses o ymgysylltu â phartneriaid Llywodraeth Leol, ynghyd â threfniadau monitro gwariant.

Cyn codi dyfarniad grant posibl yn ffurfiol, byddai'r arweinydd polisi fel arfer wedi trafod y nodau, yr amcanion a'r ymarferoldeb gyda'r corff llywodraeth leol. Pan fo'r grant yn berthnasol i bob awdurdod lleol, byddai disgwyl i'r arweinwyr polisi fod wedi cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y trafodaethau hyn. Nid yw'r broses o ddyfarnu grant heb ei neilltuo i Lywodraeth Leol yn wahanol i'r un a ddefnyddir i ddyfarnu grantiau i unrhyw sector arall. Ar ôl penderfynu mai cynllun grantiau yw'r ffordd orau o weithredu polisi, bydd y swyddog polisi arweiniol yn cyflwyno'r cynnig i'r panel sicrwydd grantiau. Cafodd y panel ei



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

sefydlu yn 2018 i roi cyngor arbenigol i arweinwyr polisi cyn iddynt gyflwyno cynllun grantiau, ac i herio ynghylch amryw o faterion, megis natur y cynllun; ai grant neu gaffael fyddai'r ffordd orau o sicrhau canlyniadau i'r polisi; a hefyd y telerau a'r amodau arfaethedig, gan gynnwys y trefniadau monitro. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o bob maes gwasanaeth arbenigol perthnasol yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y meysydd cyfreithiol, archwilio mewnol, twyll, caffael, llywodraethiant corfforaethol, a'r ganolfan ragoriaeth grantiau. Mae'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg. Mae'r ganolfan ragoriaeth grantiau yn gweithio gyda swyddogion polisi i ddilyn hynt yr holl gamau gweithredu sy'n codi o'r panel.

Ar ôl penderfynu bwrw ymlaen â chynllun grantiau, bydd angen i swyddogion polisi nodi manylion perthnasol y cynllun ar ddeddf y llythyr dyfarnu safonol a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru. Cafodd templed safonol ei gyflwyno yn 2019 fel ffordd o sicrhau bod pob cynllun grantiau yn cynnwys yr ystod gynhwysfawr o bolisiau a gwiriadau y mae eu hangen i ddiogelu cyllid cyhoeddus. Un o'r prif agweddau ar y templed yw'r hyn y gellir ei gyflawni a'r cerrig milltir y bydd angen i'r sawl sy'n cael y grant eu cyrraedd, sut y bydd hwnnw'n cael ei ad-dalu am y costau a delir ganddo, a'r trefniadau monitro a fydd ar waith. Mae rheolwyr grantiau'n cael y cyfle i gynnwys unrhyw amodau penodol sy'n berthnasol i'w cynllun grantiau nhw er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n glir o ran yr hyn a ddisgwyllir ganddynt ar ôl cael y cyllid.

Mae grantiau Llywodraeth Leol yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r rheolaethau arferol a weithredir gan reolwyr grantiau sy'n monitro targedau a'r hyn a gyflawnir. Y gwahaniaeth o ran grantiau heb eu neilltuo i Lywodraeth Leol a'r trydydd sector a'r sector preifat yw bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i bob Swyddog S151 gwblhau datganiad o wariant ar gyfer pob dyfarniad grant dros £100,000. Mae hefyd yn debygol y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r trefniadau cyllid ar gyfer rhai grantiau a roddir gan Lywodraeth Cymru, yn ystod ei harchwiliad diwedd flwyddyn o ran holl gyrrff Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mater i Swyddfa Archwilio Cymru yw cwmpas yr archwiliad o Lywodraeth Leol.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, rhowch wybod imi.



yu gywir,
Shan Morgan

Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Atodiad A



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



Diogelu Llywodraeth Cymru gyda'n gilydd
Together we'll keep Welsh Government safe

Pontio ar gyfer adnewyddu yn ofalus – cipolwg ar ein dull graddol

O Gyfnod Clo i Adnewyddu – Diogelu Llywodraeth Cymru gyda'n gilydd

Cyfnod 1 – Cyfnod Clo

<5% o staff yn gweithredu o CP2 a CLI ar gydgyssylltu'r argyfwng gyda mynediad ad hoc i eraill drwy gytundeb

SROs Adeiladau gyda chefnogaeth Pwyllgorau Tai (yn cynnwys yr Undebau Llafur) yn datblygu Siarteri Adeiladau ac yn arwain y gwaith o weithredu cyfnodau pontio lleol yn dilyn adolygiadau a phenderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol.

Cyfnod 2 - Pontio

Cam cynnar:
30 Gorffennaf am 6 wythnos

- PC, CLI, Aberystwyth a MT yn agor
- Uchafswm o 20% o staff a nodwyd fel gweithwyr busnes hanfodol yn gweithio o'r swyddfeydd
- Meysydd craidd dynodedig i dimau i leihau risg trosglwyddo

Cam canol:
Penderfyniad y Pwyllgor Gweithredol yn dilyn adolygiad 6 wythnos gyda'r Undebau Llafur a'r SROs

- PC, CLI, Aberystwyth a MT yn agor
- Uchafswm o 35-40% o staff a nodwyd fel gweithwyr busnes hanfodol a lles/cydllynu timau yn gweithio o'r swyddfeydd

Cam diweddarach:
Penderfyniad y Pwyllgor Gweithredol yn dilyn adolygiad 6 wythnos gyda'r Undebau Llafur a'r SROs

- Swyddfeydd eraill yn agor yn raddol
- Uchafswm o 35-40% o staff a nodwyd fel gweithwyr busnes hanfodol a lles/cydllynu timau yn gweithio o'r swyddfeydd

Diogelu Llywodraeth Cymru gyda'n Gilydd – Siarteri Timau a Siarteri Adeiladau yn nodi'r dull o reoli pam, pwy, ble a phryd y byddwn ni'n gweithio mewn swyddfa

Cyfnod 3 – Adnewyddu


Cynnwys staff mewn ystyriaeth hirdymor ar 'adnewyddu' y sefydliad a ffyrdd o weithio ar gyfer y dyfodol

Dirprwy Gyfarwyddwyr i ddatblygu Siarteri Timau a rheoli presenoldeb timau – cynrychioliaeth ar bwyllgorau tai i sicrhau bod adeiladau'n aros o fewn lefelau gweithio diogel

Bydd y rhan fwyaf ohonom yn gweithio gartref, y rhan fwyaf o'r amser (o leiaf 60% o staff ar unrhyw adeg benodol). Cyfarfodydd rhithwir fydd y norm o hyd gyda chyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd cyfarfod cadw pellter cymdeithasol. Dim ymwelwyr heblaw trwy eithriad yn y cyfnod pontio cynnar


Rheoli lefelau defnydd yn y cyfnod pontio cynnar

Mae angen cyflwyno proses i nodi a rheoli nifer y bobl sy'n gweithio yn adeiladau Llywodraeth Cymru cyn diwedd Gorffennaf. Cam lliniarol yw hwn i leihau'r risg o Lywodraeth Cymru'n caniatáu mwy na'r uchafswm o bobl a ganiateir o fewn rheolau cadw pellter a sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru restr o staff sy'n dod i'r adeilad ar unrhyw adeg benodol at ddibenion olrhain a diogelu. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu a'i hailddefnyddio i gofnodi'r rhai sy'n mynychu ym mhob cyfnod pontio.



Trefniadau llywodraethu yn y cyfnod pontio cynnar

Mae'r sleid yn nodi'r trefniadau a fydd ar waith yn ystod y cyfnod pontio cynnar. Bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadolygu gydol y cynllun peilot i sicrhau eu bod yn effeithiol. Bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal i hysbysu penderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol, yr Uwch Swyddogion Cyfrifol a'r Pwyllgor Tai Pontio Diogel ar weithrediad y mesurau hyn yn y cyfnodau pontio dilynol.



Ymgysylltu a Sgyrsiau â'r holl Staff

Dewch i Draffod Byw rheolaidd gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol

Sesiynau Ymgysylltu Arweinwyr Timau ar bonito, cymorth ar gyfer blaenoriaethau a lles

Grŵp Strategaeth Adfer a Chyflawni Gwasanaethau Corfforaethol

Cynllunio ac Ymgysylltu mewn Grwpiau Y Cyfarwyddwyr Cyffredinol

Grŵp Llywio SRO Pontio Diogel

Diogelu Llywodraeth Cymru gyda'n Gilydd

Diogelu 'lleoliad' gyda'n gilydd Ein Siarter Adeiladau

Pwyllgor Gweithredol Cynllun Cyfnod Clo, Pontio ac Adnewyddu

Diogelu 'Is-adran' gyda'n gilydd Ein Siarter Timau

Diogelu ein gilydd, gyda'n gilydd Eich Cynllun a'ch Sgwrs Unigol

Sesiwn a Briff yr Uwch Wasanaeth Sifil (wythnos 22 Mehefin)

Sesiwn bwrpasol gan yr Uwch Wasanaeth Sifil ar **Ddiogelu Llywodraeth Cymru** a'u rôl fel arweinwyr. Cyflwyniad i'r pecyn ymgysylltu a'r wybodaeth y bydd angen i Ddirprwy Gyfarwyddwyr ei chadarnhau i ddweud pwy sy'n mynd i'n swyddfeydd yn ystod y cyfnod cychwynol.

Cyfarfodydd Timau Adrannol (29 Mehefin i 17 Gorffennaf)

Bydd gofyn i bob is-adran gynnal cyfarfod rhithwir i ganolbwyntio ar y strategaeth bontio, y siarter drefniadol a datblygu eu Siarter Tîm eu hunain.

Gofynnir i grŵp cynrychioliadol o Ddirprwy Gyfarwyddwyr i gymryd rhan yn y Pwyllgor Tai i sicrhau bod anghenion gweithredol yn cael eu cynnwys yn y Siarteri Adeiladau ac i gymryd arweiniad gweithredol gydol y cyfnod pontio.

Diogelu ein gilydd, gyda'n gilydd Eich Sgwrs Unigol (29 Mehefin i 17 Gorffennaf)

Pwyllgorau Tai Pontio Diogel

Grŵp dros dro i lywio a chyflawni cyfnod pontio'r adferiad ym mhob lleoliad. Grŵp estynedig mae'n debyg o'r pwyllgorau Tai/lechyd a Diogelwch sy'n bodoli eisoes (pwyllgor newydd ar gyfer PC gyda chynrychiolaeth helaeth o Grwpiau pob llawr).

Bydd hwn yn cael ei gadeirio gan SRO Adeiladau ac yn cynnwys cynrychiolwyr o bob maes busnes (Dirprwy Gyfarwyddwyr yn ddelfrydol). Rhagor o ystyriaeth i gyngor ar gyfer y rhai mewn swyddfeydd nad ydyn nhw ar agor.

Bydd y grŵp hwn yn cyflawni rôl arwain gyfunol yn y lleoliad hwnnw ac yn gyfrifol am y Siarter Adeiladau ac am weithredu a dilyn y canllawiau drwy bob cyfnod pontio yn cynnwys ymateb yn briodol i dramgwyddau.

Cefnogi Gweithio'n Ddiogel o Gartref ac yn y Swyddfa



Gweithio'n ddiogel o Gartref

Canllaw Gweithio'n Ddiogel o Gartref

Canllaw Desg Ddiogel a'r Broses Gwneud Cais

Tîm Addasiadau Gweithle

Tîm Cyngori Achosion

Rhaglen Cymorth i Weithwyr

Rhwydweithiau Cymdeithasol Mewnol

Pecyn Dysgu Gweithio'n Rhithwir

Pennu Disgwyliadau a Ffyrdd o Weithio

Diogelu Llywodraeth Cymru gyda'n Gilydd

Diogelu *Is-adran* gyda'n gilydd Ein Siarter Timau

Diogelu ein gilydd, gyda'n gilydd Eich Cynllun Unigol

Canllaw Adnoddau Cydweithredu

Cyfathrebu Mewnol Newyddion diweddaraf ac ymgysylltu



Gweithio'n ddiogel yn y Swyddfa

Ein Siarter Adeiladau

Fframwaith Digwyddiadau y Gweithle

Pecyn Diogelu Llywodraeth Cymru gyda'n Gilydd

Canllawiau a Chytundeb Cadw Pellter Cymdeithasol

Mynediad i gynhyrchion hylendid, a PPE lle bo angen

Polisi Desg Glir

Asesiad Risg Unigol

Canllawiau a pholisïau diwygiedig

Cyngor ar barcio a rhannu ceir

Negeseuon clir ar gyfer cyd-atgyfnerthu



Neges gyffredinol

Diogelu Cymru / Keep Wales Safe

Neges Sefydliadol

Diogelu Llywodraeth Cymru / Keep Welsh Government Safe

Neges gweithle

Diogelu (Parc Cathays) gyda'n gilydd / Together we'll keep (Cathays Park) safe

Neges(euon) gweithredu fel y bo'n briodol

Cadw dau fetr ar wahân
Mesurau hylendid

Sample Wing Banner Design

**Cadwch eich
Pellter**
**Keep your
Distance**



**Diogelu Parc Cathays
gyda'n gilydd**
**Together we'll Keep
Cathays Park safe**



**Cadwch eich
Pellter**
**Keep your
Distance**



**Diogelu Parc Cathays
gyda'n gilydd**
**Together we'll Keep
Cathays Park safe**





Briff i'r Ymgeisydd a Disgrifiad o'r Swydd

Cyfarwyddwr Addysg

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus



Cynnwys

- 1. Neges gan Tracey Burke, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**
- 2. Cefndir Llywodraeth Cymru**
- 3. Diben y swydd**
- 4. Y prif dasgau**
- 5. Manyleb y person**
- 6. Y cyfleoedd datblygu a gynigir gan y swydd**
- 7. Sut i wneud cais**
- 8. Y broses ddethol**
- 9. Telerau'r penodiad**

Atodiadau

A - Datganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil

B - Cod y Gwasanaeth Sifil

1. Neges gan Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus



Diolch i chi am eich diddordeb yn y swydd Cyfarwyddwr Addysg. Rwy'n hynod o falch eich bod chi am wybod mwy.

Mae hon yn rôl gyffrous yn uwch-dîm arwain Llywodraeth Cymru. Mae addysg yng Nghymru yn newid, ac mae cenhadaeth ein cenedl ar wella addysg yn seiliedig ar arferion da rhyngwladol a meithrin cysylltiadau ag arbenigwyr ac ymarferwyr blaenllaw ar bob lefel. Bydd eich rôl yn gofyn am ddarparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol i gyflawni'r amcanion wrth weithio mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

Mae gan system addysg Cymru ethos dwyieithog unigryw, ac mae'n cynnwys sector cyfrwng Cymraeg ffyniannus. Gyda chwricwlwm newydd i Gymru, a diwylliant cryf o bartneriaeth rhwng y llywodraeth, awdurdodau lleol, athrawon ac ysgolion, rydym yn arloesi ar draws y system i wella canlyniadau i bob dysgwr.

Bydd angen i'r person a benodir fod wedi dangos eisoes ei allu i arwain, gan gynnwys dylanwadu ac ysgogi ar draws gwasanaethau cyhoeddus a'r llywodraeth. Rhaid i'r Cyfarwyddwr fod yn fedrus wrth weithio ar y cyd ag amrywiaeth eang o bartneriaid, dan bwysau craffu gwleidyddol dwys. Mae meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol yn hanfodol.

Caiff y Cyfarwyddwr ei gefnogi yn y rôl gan Brif Gyngorydd Addysg a fydd yn cael ei benodi i ddarparu profiad ymarferol o'r system addysg a dealltwriaeth glir o anghenon a rolau dysgwyr, staff ysgol, llywodraethwyr, rhieni, awdurdodau lleol a'r haen ganol.

Y brif her sy'n wynebu'r Cyfarwyddwr yw arwain rhaglen uchelgeisiol o newid gweddnewidiol o fewn y sector a sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i weithredu'n ddidrafferth. Bydd profiad blaenorol o gyflawni rhaglenni mawr a chymhleth yn hanfodol a bydd yn rhaid gwneud hyn wrth ddelio ar yr un pryd â'r her ychwanegol o ymateb i effaith tymor canolig a hirdymor COVID-19. Bu'r her yn ymdrech genedlaethol enfawr ac mae Llywodraeth Cymru a'i holl bartneriaid wedi ymateb i'r her honno gyda'i gilydd gan gamu i'r bwlch i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael cymorth gyda'u lles a'u gallu i ddysgu a thyfu.

Mae elfennau corfforaethol a rheoli'r swydd hon yn sylweddol, a bydd angen i'r Cyfarwyddwr ddangos profiad helaeth o arwain a rheoli. Bydd angen iddo hefyd fod â phrofiad o lunio polisi, ynghyd â dealltwriaeth o'r fframwaith deddfwriaethol a sut mae hyn yn bwydo i'r broses o wneud rheoliadau.

Rydym yn chwilio am rywun a fydd yn gweithio'n dda mewn tîm fel rhan o dîm uwcharweinwyr Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ac yn barod i gydweithio mewn ysbryd o optimistiaeth o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd.

2. Cefndir Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o tua £18 biliwn, ac mae'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet yn arwain Llywodraeth Cymru ac yn atebol i Senedd Cymru. Mae'r Cabinet wedi gosod diwylliant o weithio fel un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, mewn partneriaeth â llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a thrwy bartneriaeth gymdeithasol gyda'r undebau llafur, busnesau a'r trydydd sector.

Etholwyd Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2016, a'n blaenoriaethau yw sicrhau Cymru wyrddach, fwy ffyniannus a mwy cyfartal. Cynhelir etholiadau nesaf y Senedd ym mis Mai 2021.

Mae gan ymadawriad y DU o'r UE ddiwedd Ionawr 2020 oblygiadau sylweddol i Gymru a Llywodraeth Cymru. Mae ein perthynas â Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill yn parhau i ddatblygu. Ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae ein gwaith yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n gosod fframwaith a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer polisi a chyflawni amcanion sy'n canolbwyntio ar lesiant a'r tymor hir.

Mae tua 5,000 o weision sifil yn cefnogi Gweinidogion Cymru, ac roedd oddeutu hanner ohonynt yn arfer gweithio yng Nghaerdydd, a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y wlad. Mae bron pob aelod o staff bellach yn gweithio gartref a byddant yn parhau i wneud hynny am y tro. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd bach yn Llundain ac ym Mrwsel, a rhwydwaith tramor ar gyfer gwaith masnachu a buddsoddi.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn werthoedd craidd i Lywodraeth Cymru. Ein nod yw bod yn gyflogwr sy'n esiampl i eraill, ac yn sail i'n gwaith y mae Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a rhwydweithiau amrywiaeth bywiog a gefnogir gan uwch hyrwyddwyr, sy'n pennu targedau amrywiaeth i wella nifer y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft, staff BAME a staff anabl ar bob lefel, a menywod ar lefelau uwch). Rydym wedi ymrwymo i'r model cymdeithasol o anabledd ac i wneud addasiadau recriwtio ac addasiadau yn y gweithle er mwyn sicrhau cydraddoldeb i staff anabl. Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein strategaeth ar Gynhwysiant ac Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus, ac rydym yn datblygu ein cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2020-2025.

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydliad dwyieithog; cynhyrchir deddfwriaeth yn y Gymraeg a Saesneg, ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal. Rydym yn dilyn safonau statudol ar gyfer y Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus. Rhaid i ymgeiswyr rannu ein

hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

3. Diben y swydd

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn perthyn i'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Dyma'r Gyfarwyddiaeth bolisi fwyaf yn y Grŵp sy'n cynnwys tua 260 o staff ar draws saith is-adran (gan gynnwys Is-adran y Gymraeg) a saith swyddfa Llywodraeth Cymru, gyda chyllideb o £587m yn 2020/21.

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn darparu cyngor polisi o ansawdd uchel i'r Gweinidog ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gyd-gynhyrchu polisiau a rhaglenni ariannu, sy'n cael eu dylanwadu'n fawr gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gweithredu'r polisiau hynny.

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn bwrw ymlaen ag agenda ddiwygio uchelgeisiol sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd ag athrawon, awdurdodau lleol a'r Arolygiaeth i godi safonau, lleihau'r bwch cyrhaeddiad, a darparu system addysg y gall y genedl i gyd fod yn falch ohoni a bod a hyder ynddi.

Mae'r rhaglen yn cynnwys cyflwyno cwricwlwm newydd yn 2022 a thrawsnewid y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Er gwaethaf y cyd-destun heriol oherwydd caledi ledled y DU, sydd wedi gwaethygu oherwydd effaith sylweddol pandemig Covid-19, rydym yn arloesi ar draws y system, gan gynnwys sicrhau bod cyllid wedi'i dargedu yn mynd i'r afael ag anfantais, ein rhaglen gwella gwyliau'r haf, cydweithio â Choleg Iâl a phrifysgolion blaenllaw eraill, a chynnal ein rhaglen buddsoddi cyfalaf ar gyfer ysgolion yr 21ain ganrif.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n rhaglen ddiwygio, fel y mae i amcanion y Llywodraeth gyfan wrth ddatblygu cymunedau cadarn, diwylliant ac iaith, a hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Mae sicrhau bod pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol yn rhan o'n llwybr at gyrraedd y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae ein hysgolion yn chwarae rhan hollbwysig o ran galluogi miloedd o blant bob blwyddyn i ddod yn ddinasyddion dwyieithog hyderus.

Mae gan yr agenda ddiwygio bedwar amcan galluogi:

Amcan galluogi 1: Dysgu proffesiynol – rydym, gyda'n partneriaid strategol, yn ymrwymedig i gefnogi athrawon drwy ddysgu proffesiynol o'r adeg y byddant yn penderfynu dod yn athrawon a thrwy eu gyrfaoedd cyfan.

Amcan galluogi 2: Arweinyddiaeth – rydym yn cydnabod maint yr her y mae penaethiaid ac arweinwyr eraill yn ei hwynebu wrth i ni geisio gwireddu [Cwricwlwm i Gymru](#) a diwallu anghenion ein hysgolion mewn perthynas â COVID-19. Rydym yn ymrwymedig i ystod o fesurau a dulliau cyfredol a newydd er mwyn cefnogi ein harweinwyr.

Amcan galluogi 3: Tegwch, rhagoriaeth a lles – rydym yn parhau i weithio'n agos â rhanddeiliaid i greu system addysg ragweithiol a chynhwysol, a'i rhoi ar waith. Wrth barhau i godi safonau i bawb, byddwn yn blaenoriaethu cymorth i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, sydd dan anfantais neu sydd ag ADY.

Amcan galluogi 4: Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd – Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cael system werthuso, gwella ac atebolrwydd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Gwnaethom gyhoeddi trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd drafft ym mis Chwefror 2019 ac rydym wedi ymgysylltu'n eang ar yr egwyddorion hynny.

4. Y prif dasgau

Mae hwn yn bortffolio amrywiol a heriol, sy'n cyfuno polisi a darpariaeth ac yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd. O ganlyniad, mae'r rôl yn gofyn am lefel uchel o grebwyll a sensitifrwydd gwleidyddol.

Byddwch yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ar lefel uwch, a bydd ein rhanddeiliaid yn rhoi arweiniad a chyfeiriad, gan gynnwys:

- Sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ran yr hyn y bydd y rhaglen newid trawsnewidiol yn ei olygu i ymarferwyr, lleoliadau addysg a phartneriaid cyflenwi o 2022.
- Sicrhau bod proses eglur ar gyfer symud ymlaen yn ddidrafferth o weledigaeth strategol i gyflawni gweithredol.
- Goruchwyllo a phennu cyfeiriad ar gyfer gwaith Prif Gyngorydd Addysg (i'w benodi ar ôl recriwtio'r Cyfarwyddwr Addysg).
- Ymateb i effaith tymor canolig a thymor hwy pandemig COVID-19, gan ddarparu sefydlogrwydd yn ystod cyfnodau ansicr, ysgogi staff a chreu ymdeimlad o waith tîm.

5. Manyleb y person

Mae'r swydd hon mewn maes heriol iawn yn y Llywodraeth. Bydd gofyn i chi wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau, a rheoli amwysedd a chymhlethdod er mwyn cyflawni nodau'r sefydliad. Bydd crebwyll deiliad y swydd yn allweddol i helpu'r sefydliad i reoli risg, wrth sicrhau canlyniadau i Weinidogion a phobl yng Nghymru.

Mae natur yr heriau a'r cyfrifoldebau'n golygu bod dealltwriaeth o Gymru a'i diwylliant a diddordeb ynddynt yn bwysig. Mae meddu ar sgiliau Cymraeg yn ddymunol i'r swydd hon, neu ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg ar ôl dechrau yn y swydd.

Bydd gofyn i chi ddarparu arweiniad gweladwy, cefnogol a strategol drwy rymuso, galluogi, cymell a datblygu eraill a meithrin diwylliant sefydliadol cadarnhaol. Bydd angen i chi feddu ar brofiad o weithio yn y sector cyhoeddus neu gydag ef, ynghyd â sgiliau rhyngpersonol cryf a'r gallu i ddatblygu a rheoli perthynas waith effeithiol gydag ystod eang o randdeiliaid y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth.

Bydd angen i chi ddylanwadu ar y lefelau uchaf, gan gynnwys Gweinidogion, ar gamau gweithredu posibl – yn enwedig o ran newidiadau mewn cyflwyno polisïau neu fusnes. Mae'r gallu i fynegi materion cymhleth yn syml ac yn huawdl yn hanfodol, yn ogystal â'r gallu i gyflwyno tystiolaeth ac argymhellion mewn ffordd glir a chymhellol. Yn ogystal, bydd angen i chi gael:

Hanfodol

- gwerthfawrogiad o anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru a'u teuluoedd ac o ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer, gan gynnwys addysg; ac anghenion dysgu'r wlad yn ehangach;
- gwerthfawrogiad o gyd-destun diwylliannol a chymdeithasol Cymru, pwysigrwydd y Gymraeg, ac anghenion a blaenoriaethau amrywiol ein cymunedau;
- hanes o gyflawni newid yn y sector cyhoeddus, yn ddelfrydol er nad o reidrwydd, mewn cyd-destun addysgol;
- y gallu i reoli set gymhleth o flaenoriaethau a rheoli rhaglenni'n effeithiol;
- y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol a throi amcanion strategol yn ganlyniadau pendant;
- profiad eang o gyfrannu at ddatblygu polisi cymhleth a throi hyn yn ddarpariaeth weithredol;
- y gallu i ddangos arweiniad corfforaethol cryf gan y bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gefnogi'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol yn gadarnhaol wrth ddarparu arweinyddiaeth drawsbynciol, gydgysylltiedig a gweladwy i'r sefydliad sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd;
- y gallu i werthfawrogi'r gwahaniaeth a'r amrywiaeth y mae unigolion yn eu cyflwyno i sefydliad ac ymrwymiad i'w datblygiad eu hunain a datblygiad eraill;

Dymunol

- sensitifrwydd i'r cyd-destun gwleidyddol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ynddo a'r gallu i weithio'n effeithiol gyda Gweinidogion a chynghorwyr y Cabinet;
- profiad o ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol drwy gynrychioli polisi a blaenoriaethau yn ddarbwyllol ar bob lefel yng Nghymru a thu hwnt, drwy negodi a dylanwadu ar unigolion a sefydliadau i broceru partneriaethau llwyddiannus;
- y gallu i arwain drwy esiampl, a bod yn gynhwysol ac yn ymgynghorol ac yn barod i rannu arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau, gan fabwysiadu dull corfforaethol bob amser;
- dull hyblyg a dyfeisgar o ymdrin â'r gwaith, a'r gallu i weithredu'n effeithiol mewn amgylchedd amlddisgyblaethol cymhleth a chyda hygredded i'r hyn a wnewch a sut rydych yn ei wneud, yn hytrach na dibynnu ar eich swydd neu'ch proffesiwn;
- meddu ar sgiliau yn y Gymraeg neu ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg ar ôl dechrau yn y swydd;
- dealltwriaeth o'r fframwaith deddfwriaethol a sut mae'n bwydo i'r broses o wneud rheoliadau.

CLWSTWR STRATEGOL – GOSOD Y TRYWYDD

Gwneud penderfyniadau effeithiol

Creu strategaethau hirdymor clir sy'n canolbwyntio ar ychwanegu gwerth ar gyfer y dinesydd a gwneud newidiadau sylweddol, parhaol, y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil.

Newid a gwella

Creu diwylliant o fod yn flaengar, yn hyblyg ac ymatebol, gan ysgogi'r cyfarwyddiaeth i ymateb yn gyflym i flaenoriaethau sy'n newid.

Gwneud penderfyniadau effeithiol

Trin a chymbwysu pob math o ddylanwadau gwleidyddol, cenedlaethol a rhyngwladol, er mwyn datblygu strategaeth a blaenoriaethau'r Adran.

Nodi a gwerthuso risgiau ac opsiynau a datblygu strategaethau i'r Adran gyfan ar gyfer eu rheoli a'u lliniaru.

Y CLWSTWR POBL - YMWNEUD Â PHOBL

Arwain a chyfathrebu

Bod yn flaenllaw a dangos hygrededd mawr ar y lefelau uchaf oll ar draws y Gwasanaeth Sifil a'r tu hwnt, a chyfleu negeseuon ystyrlon am ddiben a chyfeiriad mewn modd clir a brwdfrydig

Trafod ar y lefelau uchaf oll â phartneriaid allanol, rhanddeiliaid a chwsmeriaid, a dylanwadu arnynt, yn llwyddiannus.

Gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth

Hyrwyddo diwylliant gweithio amrywiol a chydweithredol, sy'n hybu agwedd agored, yn ei gwneud hi'n haws i bobl droi at eraill ac sy'n cefnogi her waeth pa mor annymunol ydyw.

Y CLWSTWR PERFFORMIAD - GWIREDDU CANLYNIADAU

Sicrhau gwerth am arian

Gallu dehongli amrywiaeth eang o wybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn drwyadl, a'i defnyddio i benderfynu ar bolisiau a strategaethau.

Rheoli gwasanaeth safonol

Creu diwylliant o weithio gyda a thrwy bartneriaid cyflenwi er mwyn gwireddu canlyniadau, gan bennu a thrafod lefel y gwasanaeth a'r hyn a fydd yn cael ei gyflenwi.

Cyflawni'n brydlon

Ysgogi diwylliant o berfformio'n rhagorol ar draws yr Adran gan roi'r lle a'r awdurdod i dimau gyflenwi amcanion a hefyd eu dwyn i gyfrif am ganlyniadau

6. Y cyfleoedd i ddatblygu a gynigir gan y swydd

Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i arwain maes polisi trawsbynciol hollbwysig ar gyfer Llywodraeth Cymru a chydweithio'n agos â Gweinidogion, Cynghorwyr Arbennig ac uwch-swyddogion ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru. Byddwch yn ennill profiad o weithio mewn maes proffil uchel, gan feithrin hyder a gwybodaeth ar y cyd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

7. Sut i wneud cais

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu trin yn gyfartal.

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy system ar-lein Llywodraeth Cymru erbyn **17 Ionawr 2021**. I wneud cais, gofynnir ichi gofrestru i gael cyfrif ar y system ymgeisio ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymhell eich bod yn dewis cyfeiriad cyfrif e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu gyda chi ynglŷn â'r broses ddethol.

Os oes gennych amhariad sy'n golygu na allwch wneud cais ar-lein, anfonwch neges e-bost at SCSrecruitment@llyw.cymru i ofyn am becyn ymgeisio mewn fformat arall, neu i ofyn am addasiadau rhesymol sy'n gysylltiedig ag amhariad, er mwyn cyflwyno'ch cais.

Recriwtio dienw

Bydd yr holl geisiadau ar gyfer y swydd hon yn ddienw yn y cam sifftio. Bydd y panel yn ystyried eich datganiad personol a'ch CV, ond **dylai'r dogfennau hyn fod yn ddienw pan fydd yn eu cyflwyno gyda'ch cais.**

Gwybodaeth am amrywiaeth

Mae'r Gwasanaeth Sifil wedi ymrwmo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, ar bob lefel, gan gynnwys y lefelau uchaf. Drwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r pwll ehangaf posibl o ddoniau, a sicrhau bod yr holl grwpiau'n cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. Ni fydd y ffurflen

hon yn cael ei datgelu i unrhyw un a fydd yn asesu'ch cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fydd modd ichi gyflwyno'ch cais os oes unrhyw un o'r cwestiynau ar ôl heb ei ateb.

Fel rhan o'r broses recriwtio, mae'n ofynnol i chi ddarparu'r canlynol:

- **Ffurflen gais** wedi'i chwblhau;
- **CV cyfredol** yn nodi hanes eich gyrfa gyda chyfrifoldebau a llwyddiannau allweddol;
- **Datganiad personol nad yw'n hirach na dwy ochr A4** yn egluro sut mae eich cymwysterau proffesiynol, sgiliau, nodweddion a phrofiad yn addas ar gyfer y rôl ac, yn arbennig sut rydych chi'n bodloni manyleb y person.

Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon, neu ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg ar ôl dechrau yn y swydd.

Cwestiynau a thrafodaeth anffurfiol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl hon cyn cyflwyno cais, cysylltwch â Tracey Burke (tracey.burke@llyw.cymru) a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth neu eglurhad.

Problemau technegol ar-lein

E-bostiwch SCSRecruitment@llyw.cymru.

8. Y broses ddethol

Trosolwg

Bydd y Tîm Recriwtio yn cydnabod eich cais trwy system Llywodraeth Cymru a phan fo'n briodol cewch wybod am ganlyniad y cyfarfod llunio rhestr fer.

Asesu

Cynhelir cyfarfod i lunio'r rhestr fer ar **26 a 29 Ionawr 2021**. Bydd yr ymgeiswyr sy'n cael eu rhoi ar y rhestr fer yn cael profion seicometrig ar-lein a fydd yn cynnwys

rhesymeg rifyddol a geiriol a thrafodaeth gyda seicolegydd. Cewch ddolen i'r profion arlein hyn yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar **8 Chwefror 2021**.

Bydd gofyn i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer gymryd rhan mewn sesiwn ymgysylltu â staff a gynhelir **yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 15 Chwefror 2021**.

Os ydych chi wedi gwneud y profion seicometrig ar-lein yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ni fydd angen i chi wneud y profion hyn eto ar gyfer y broses recriwtio hon.

Cynhelir cyfarfodydd briffio â'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 15 Chwefror 2021. Cânt eu cynnal yn rhithiol drwy dimau Microsoft.

Cyfweliadau

Cynhelir y cyfweliadau ar-lein drwy Microsoft Teams ar **25 a 26 Chwefror 2021**.

Byddant yn para rhyw 45 munud.

Bydd y panel dethol yn cynnwys y canlynol:

- Margaret Edwards, Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil (Cadeirydd)
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
- Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru

Bywgraffiadau

Margaret Edwards



Mae Margaret wedi ymgymryd â rolau uwch yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys rolau Prif Weithredwr yn y GIG, ac fel Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Iechyd. Cafodd hefyd yrfa lwyddiannus gyda Mckesson International. Ar hyn o bryd, Margaret yw Cadeirydd Bwrdd Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae ganddi hanes o gynllunio a chyflwyno newidiadau yn y sector cyhoeddus a chyflawni targedau cenedlaethol. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn alinio amcanion unigol a chorfforaethol a dylunio pecynnau gwobrwyo cyfan.

Penodwyd Margaret yn Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil ar 1 Hydref 2017.

Tracey Burke



Mae Tracey wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â gwaith adfywio yng Nghymru ac Iwerddon ers dros 20 mlynedd wrth weithio i Lywodraeth Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Llywodraeth Iwerddon, Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd. Ganwyd Tracey yng Nghaerdydd, ac ymunodd â Llywodraeth Cymru yn 2006 o Awdurdod Datblygu Cymru. Ers hynny, mae Tracey wedi cael swyddi ym maes polisi economaidd a pholisi trafndiaeth, yn ogystal â rôl strategol ehangach ar draws Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol. Penodwyd Tracey i swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2017.

Peter Kennedy



Y fi ar hyn o bryd yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Ymunais â Llywodraeth Cymru yn 2004 ar ôl gweithio am nifer o flynyddoedd yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Treuliais 9 mlynedd gyda'r RAF yn cynnal a chadw awyrennau ac mewn swyddi hyfforddi technegol.

Mae gen i gymwysterau proffesiynol mewn adnoddau dynol ac mae gen i lawer o flynyddoedd o brofiad ar lefel weithredol a strategol o Adnoddau Dynol a phrofiad o TGCh, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Cyfleusterau a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau. Mae gen i gyfrifoldebau ychwanegol fel Prif Noddwr y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

Rwy'n briod â Jenny ac mae gen i ddau o blant sydd wedi tyfu i fyny ac un wyres. Cafwyd bod sglerosis ymledol ar Jenny bum mlynedd yn ôl. Mae'r sefydliad wedi bod yn hynod o gefnogol a hyblyg i'm helpu i daro ar gydbwysedd effeithiol rhwng bod yn uwchwas sifil a gofalwr.

Cynllun Cyfweliad Hyderus o ran Anabledd

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i wneud cais am swydd gyda Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n diwallu'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd

(“nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os bydd eich cais yn llwyddiannus, anfonwch e-bost at scsrecruitment@llyw.cymru cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a'ch anghenion.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl.

Cymwyseddau

